OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1667 (Cy.191)

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Gorffennaf 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 57(1), (1A), (3), (5B), (5C), (6), (7) a (7B) a 64(4A), (6) ac (8) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**1**) ac adrannau 17A(1), (3) a (4) a 104(4) a 104A o Ddeddf Plant 1989(**2**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 2 Awst 2011.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr “y prif Reoliadau” (“*the principal Regulations*”) yw Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) (“Deddf 2001”). Cafodd adran 57 o Ddeddf 2001 ei diwygio gan adran 146 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14) (“Deddf 2008”). Mewnosodwyd adrannau 57(1A), (5B) a (5C) o Ddeddf 2001 gan adran 146(2) a (6) o Ddeddf 2008 a mewnosodwyd adran 57(7B) gan adran 16 o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2010 (mccc 2). *Gweler* adran 57(8) o Ddeddf 2001 am y diffiniad o “prescribed” ac adran 66 am y diffiniadau o “regulations” a “the relevant authority”. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf 2001 i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) Deddf Plant 1989 (p.41) (“Deddf 1989”). Amnewidiwyd adran 17A o Ddeddf 1989 gan adran 58 o Ddeddf 2001, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23) (“DPPhI”). Cafodd adran 104 o Ddeddf 1989 ei diwygio gan baragraff 25 o Atodlen 3 i DPPhI a mewnosodwyd adran 104A o Ddeddf 1989 gan baragraff 26 o Atodlen 3 i DPPhI. *Gweler* adran 17A(6) o Ddeddf 1989 am y diffiniad o “prescribed” ac adran 30A (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 22 o Atodlen 3 i DPPhI) am y diffiniad o “appropriate national authority”.

(**3**) O.S. 2011/831 (Cy.125).

**Diwygio'r nodyn esboniadol i'r prif Reoliadau**

**2.** Yn y nodyn esboniadol i reoliad 7 o'r prif Reoliadau, yn y testun Cymraeg, yn lle “gweithredu ar ran person” rhodder “bod yn ddirprwywr i berson”.

**Diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau**

**3.**—(1) Mae rheoliad 7 o'r prif Reoliadau (pwerau a ragnodir ar gyfer lladmeryddion) wedi cael ei ddiwygio yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn y testun Cymraeg—

(a) yn y pennawd, yn lle “lladmeryddion” rhodder “dirprwywyr”, a

(b) yn lle “lladmerydd” rhodder “dirprwywr” .

(3) Yn y testun Saesneg yn lle “*lladmerydd*” rhodder “*dirprwywr*”.

**Diwygio rheoliad 9 o'r prif Reoliadau**

**4.**—(1) Mae rheoliad 9 o'r prif Reoliadau (taliadau uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001), wedi cael ei ddiwygio yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (2)(a)(iii), yn y testun Cymraeg, yn lle “ladmerydd” rhodder “ddirprwywr”.

(3) Ym mharagraff (4)(a), yn y testun Cymraeg, hepgorer “neu adran 17A(1) o Ddeddf 1989”.

**Diwygio rheoliad 10 o'r prif Reoliadau**

**5.** Yn rheoliad 10 o'r prif Reoliadau (swm a thalu taliadau uniongyrchol o dan adran 57(1) o Ddeddf 2001 neu adran 17A(1) o Ddeddf 1989), ym mharagraff (2) yn y testun Cymraeg—

(a) yn lle “P” pan fo'n ymddangos am y tro cyntaf, rhodder “y person rhagnodedig”, a

(b) yn lle “P” pan fo'n ymddangos am yr eildro, rhodder “'r person rhagnodedig”.

**Diwygio rheoliad 11 o'r prif Reoliadau**

**6.** Yn rheoliad 11 o'r prif Reoliadau (swm a thalu taliadau uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001), ym mharagraff (6), yn y testun Cymraeg—

(a) mewnosoder “y” rhwng “wneud” a “taliad”, a

(b) yn lle “uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001 er mwyn i'r person rhagnodedig” rhodder “y cyfeirir ato ym mharagraff (1) mewn cysylltiad â'r person sy'n”.

**Diwygio rheoliad 12 o'r prif Reoliadau**

**7.**—(1) Mae rheoliad 12 o'r prif Reoliadau (amodau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol o dan adran 57(1) o Ddeddf 2001 neu adran 17A(1) o Ddeddf 1989), wedi cael ei ddiwygio yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (2)(c), yn y testun Cymraeg, mewnosoder “sy'n byw ar yr un aelwyd â'r person rhagnodedig ac” rhwng “person” a “sy'n”.

(3) Ym mharagraff (5), yn y testun Cymraeg, mewnosoder “amodau” rhwng “yr” ac “y cyfeirir”.

**Diwygio rheoliad 13 o'r prif Reoliadau**

**8.** Yn rheoliad 13 o'r prif Reoliadau (amodau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001), ym mharagraff (3)(c), yn y testun Cymraeg, mewnosoder “byw ar yr un aelwyd â P ac sy'n” rhwng “person sy'n” a “dwyn”.

**Diwygio rheoliad 17 o'r prif Reoliadau**

**9.**—(1) Mae rheoliad 17 o'r prif Reoliadau (adolygu) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (2), yn y testun Cymraeg—

(a) yn lle "nad yw" rhodder "bod", a

(b) yn lle "o" rhodder "o'r" rhwng "adran 57(5A)" a "Ddeddf honno".

**Diwygio rheoliad 19 o'r prif Reoliadau**

**10.**—(1) Mae rheoliad 19 o'r prif Reoliadau (terfynu taliadau uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001), wedi ei ddiwygio yn unol â'r paragraff canlynol o'r rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (6), yn y testun Cymraeg—

(a) mewnosoder "uniongyrchol" rhwng "daliadau" ac "a wneir",

(b) yn is-baragraff (a), mewnosoder "buddiolwr" rhwng "os yw'r" ac "yn berson", ac

(c) yn is-baragraff (c), hepgorer "is met".

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Gorffennaf 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yr oedd Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/831 (Cy.125)) ("y prif Reoliadau") wedi dirymu a disodli Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1748 (Cy.185)).

Mae'r prif Reoliadau yn darparu ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol er mwyn i berson sicrhau darpariaeth o rai gwasanaethau gofal cymdeithasol y byddid yn eu darparu o dan y deddfiadau gofal cymunedol a grybwyllir yn adran 46(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (cynlluniau awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol), i ofalwyr o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (gwasanaethau ar gyfer gofalwyr), neu wasanaethau o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 (darparu gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill).

Mae rheoliadau 3 i 10 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gywiro mân wallau drafftio a gwallau teipograffyddol yn y testun Cymraeg a gwneud un diwygiad canlyniadol i destun Saesneg y prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gan mai cywiro mân wallau drafftio a gwallau teipograffyddol yn y prif Reoliadau yn unig y maent, ni thybiwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.